**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/00831/22

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a'r Seilwaith
Senedd Cymru

24 Mai 2022

Annwyl Llyr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Mai ynghylch yr ymchwiliad i dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Cynnes a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Rhannaf y pryderon a fynegwyd gan y pwyllgor am yr effaith y mae'r argyfwng ynni a chostau byw yn ei chael ar aelwydydd yng Nghymru. Mae'r rhagolygon diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill yn awgrymu y gallai 45% o holl aelwydydd Cymru fod yn gwario mwy na 10% o incwm eu haelwyd ar eu hanghenion ynni domestig.

Ni fydd y cynnig presennol gan Lywodraeth y DU i ddarparu ad-daliad ad-daladwy o £200 ar filiau ynni ym mis Hydref yn gwneud fawr ddim i leihau'r effaith ar gyllidebau cartrefi. Mae Jane Hutt AS, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a minnau wedi lobïo dros weithredu gan Lywodraeth y DU i gefnogi teuluoedd sydd dan bwysau. Rydym wedi galw am:

• Dalu'r ad-daliad bil trydan o £200 fel grant nad yw'n ad-daladwy i bob talwr biliau;

• Cyflwyno cap is ar gyfer prisiau ynni i aelwydydd incwm is fel eu bod mewn sefyllfa well i dalu costau eu hynni;

• Cynyddu'r ad-daliad a delir drwy'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes a chynlluniau tanwydd gaeaf;

• Dileu'r holl gostau polisi cymdeithasol ac amgylcheddol o filiau ynni'r cartref ac yn hytrach eu talu o drethiant cyffredinol, o leiaf wedi'u hariannu'n rhannol gan dreth ffawdelw ar yr elw gormodol sy'n cael ei wneud gan gynhyrchwyr nwy ac olew;

• Adfer y cynnydd o £20 yr wythnos i'r Credyd Cynhwysol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf eich sicrhau chi a'r pwyllgor y byddwn yn parhau i ychwanegu ein llais at y galwadau i Lywodraeth y DU gamu i'r adwy a chyflawni ei rhwymedigaethau moesol i wneud mwy i gefnogi aelwydydd drwy'r argyfwng hwn.

Ers mis Hydref, rydym wedi ymrwymo £380m i becyn o fesurau i gefnogi aelwydydd sydd â'r angen mwyaf. Cafodd dros 200,000 o aelwydydd elwa o'r cynllun cymorth tanwydd gaeaf nad yw'n ad-daladwy hwn gwerth £200 y gaeaf diwethaf a bydd cynllun arall ar gael i aelwydydd cymwys yr hydref hwn. Yr ydym yn edrych ar sut y gall y cynllun gyrraedd mwy o aelwydydd. Bydd dros 330,000 o aelwydydd hefyd yn elwa o'r ad-daliad treth gyngor o £150 sy'n cael ei brosesu ar hyn o bryd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae cymorth ychwanegol ar gael i fanciau bwyd a gwneir taliadau i'r aelwydydd mwyaf bregus drwy ein Cronfa Cymorth Dewisol.

Mesurau yw'r rhain sy'n rhoi arian ym mhocedi pobl sydd bellach yn ei chael yn anodd talu am gostau byw hanfodol o ddydd i ddydd. Yr ydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio beth arall y gellir ei wneud i leihau'r baich yn ystod y gaeaf i ddod. Yr wyf yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw'r mesurau dros dro hyn yn mynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol yn sector ynni'r DU, sy'n parhau i ddibynnu ar losgi tanwydd ffosil i ddiwallu ein hanghenion ynni.

Mae digwyddiadau diweddar yn tanlinellu pa mor bwysig yw symud at gyflenwad ynni mwy cynaliadwy a gwydn, er mwyn sicrhau parhad a phrisiau sefydlog i ddefnyddwyr a chyflawni ein huchelgeisiau sero net a chyfiawnder cymdeithasol cyffredin. Dros y ddegawd ddiwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi digon o gymhellion ar waith i symud i'r system ynni sero-net sydd ei hangen arnom. Cyhoeddwyd Strategaeth Diogelwch Ynni'r DU fis diwethaf, yn ystod argyfwng costau byw. Er gwaethaf galwadau niferus i Lywodraeth y DU gymryd camau i gefnogi'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o brisiau ynni uchel, nid yw'r strategaeth yn gwneud dim i gefnogi dinasyddion. Yn hytrach, mae'n nodi dull o gyflenwi ynni sy'n peryglu cloi'r DU i ddibyniaeth barhaus ar danwydd ffosil a gosod beichiau ariannol sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol pan fo opsiynau amgen rhatach i ddefnyddio cynhyrchu adnewyddadwy ar raddfa fawr. Byddwn yn parhau i gynyddu'r buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru ac fel y gwnawn ni, byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd a chymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys sut y gallwn leihau biliau defnyddwyr yn uniongyrchol ar gyfer aelwydydd yng Nghymru.

Gwella effeithlonrwydd ynni domestig yw un o'r mesurau mwyaf effeithiol o fewn ein rheolaeth o hyd i ryddhau deiliaid tai o'r gost i gynnal trefn wresogi foddhaol. Ers 2010, mae ein Rhaglen Cartrefi Cynnes wedi bod o fudd i dros 67,100 o aelwydydd incwm is, gan arbed cyfartaledd blynyddol amcangyfrifedig o fwy na £300 ar eu biliau ynni, yn seiliedig ar werthoedd 2021. Eleni, rydym wedi cynyddu'r gyllideb i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes £3m i gefnogi mwy o aelwydydd i leihau eu biliau ynni. Agorais yr ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes ar 22 Rhagfyr, a ddaeth i ben ar 1 Ebrill. Disgwyliaf i'n cynigion ar gyfer fersiwn nesaf y rhaglen fod gennyf ym mis Gorffennaf. Wrth gwrs, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y canlyniadau ar yr ymgynghoriad a'n dull gweithredu arfaethedig pan fydd y Senedd yn dychwelyd o doriad yr haf.

Cofion cynnes

Julie James

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**